

AAT Diploma Proffesiynol mewn Cyfrifeg (Cymhwyster Llawn) Lefel 4



Yn gryno

Mae'r Diploma Lefel 4 mewn Cyfrifeg Broffesiynol yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth o fewn cyd-destun cyfrifeg ehangach. Mae'r pwnc hwn yn ymdrin â phynciau a thasgau cyfrifeg a chyllid ar lefel uchel.

Byddwch yn edrych ar ystod eang o sgiliau a chymwysiadau rheolaeth ariannol, a dod yn gyfforddus â nhw ac yn ennill sgiliau mewn drafftio adroddiadau ariannol i gwmnïau cyfyngedig, argymhell strategaethau systemau cyfrifeg, a datblygu a chyflwyno adroddiadau cyfrifyddu rheoli cymhleth. Byddwch hefyd yn dysgu am reoli credyd, rheoli arian a rheolaeth ariannol.

Mae themâu allweddol drwy gydol y cymhwyster yn cynnwys technoleg, moeseg, cynaliadwyedd a chyfathrebu.

Os mai eich nod yw bod yn gyfrifydd, yna astudiwch gyda ni yma yn Coleg Gwent, mae gennym diwtoriaid AAT profiadol gyda phrofiad o'r diwydiant i'ch helpu i gwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un sydd wedi llwyddo i gwblhau'r Diploma Lefel 3 mewn Cyfrifeg sy'n dymuno parhau i ddatblygu eu sgiliau cyfrifyddu

...y rhai hynny sy'n dymuno mynd ymlaen i ddod yn aelod llawn o'r AAT a/neu astudio am statws cyfrifydd siartredig

...y rhai hynny sy'n dymuno dechrau eu busnes eu hunain drwy'r cynllun aelodau trwyddedig AAT

Cynnwys y cwrs

Byddwch yn gwella'r sgiliau a ddatblygwyd gennych yn y Diploma Lefel 3 mewn Cyfrifeg, a chaffael sgiliau cyfrifeg a chyllid

proffesiynol a fydd yn ddefnyddiol drwy gydol eich gyrfa cyfrifyddu.

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys tair uned orfodol a dwy uned arbenigol. Mae'r unedau gorfodol yn cynnwys:

Cyfrifyddu Rheoli Cymhwysol
Drafftio a Dehongli Datganiadau Ariannol
Systemau a Rheolaethau Cyfrifo Mewnol

Yr unedau arbenigol yw:

Rheolaeth Ariannol a Rheoli Arian Parod
Rheoli Credyd a Dyled

Ar ôl dechrau'r cwrs, bydd angen i chi ymrwymo'n llawn i bresenoldeb, dangos parch at eraill, bod yn frwdfrydig ac yn hunanysgogol.

Byddwch yn cael eich asesu'n barhaus drwy aseiniadau ac arholiadau. Bydd gofyn i chi barhau gyda'ch astudiaethau a gwaith cwrs yn eich amser eich hun, gyda hyd at 8 awr yr wythnos o astudiaeth ar eich liwt eich hun yn ychwanegol i'ch amser yn y dosbarth. Canllaw yw hyn, gall rhai myfyrwyr fod angen mwy neu lai o amser i gwblhau eu cymhwyster.

Gofynion Mynediad

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer y cwrs hwn mae angen i chi fod wedi cwblhau Diploma Uwch AAT Lefel 3 mewn Cyfrifeg neu gyfwerth yn llwyddiannus.

Os nad ydych yn siwr ai dyma'r lefel gywir i chi, ewch i aat.org.uk lle gallwch gwblhau'r prawf AAT Skillcheck neu i helpu i sicrhau eich bod yn dechrau ar y lefel gywir.

Gwybodaeth Ychwanegol

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, ac ar ôl bodloni meini prawf yr AAT, gallwch wneud cais am aelodaeth lawn o'r AAT, a fydd yn caniatáu i chi ddefnyddio'r llythrennau MAAT ar ôl eich enw.

Fodd bynnag, canlyniad sylfaenol a phwysicaf y Diploma Lefel 4 mewn Cyfrifeg Broffesiynol yw y gall arwain at amrywiaeth eang o swyddi cyfrifeg a chyllid sy'n talu'n dda, y mae rhai ohonynt yn cynnwys:

Technegydd Cyfrifyddu Proffesiynol
Archwilydd Cynorthwyol
Cyfrifydd Rheoli Cynorthwyol
Dadansoddwr Masnachol
Rheolwr Cyflogres
Uwch Geidwad Cyfrifon
Uwch Swyddog Ariannol
Goruchwyliwr Cyfrifon Taladwy a Threuliau
Cyfrifydd Ariannol Cynorthwyol
Cyfrifydd Costau
Cyfrifydd Asedau Sefydlog
Rheolwr Treth Anuniongyrchol
Rheolwr Taliadau a Bilio
Uwch Gyfrifydd Cronfa
Uwch Weinyddwr Ansoffedd
Cyfrifydd TAW

Mae cwblhau'r cwrs hwn hefyd yn cynnig llwybr carlam i statws cyfrifydd siartredig gan y bydd AAT yn rhoi eithriadau hael i chi rhag holl gyrff siartredig ac ardystiedig y DU.

Cost llyfrau cwrs oddeutu £150.

Cost Cofrestriad ATT (yn daladwy i ATT) £240.